



## BETH SYDD YN YR ADRAN HON?

Mae'r dyddiadur yn cynnwys:

- taflenni gweithredu
- taflenni adolygiad tri mis

Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r cofnodion bwyd y mae'n rhaid i chi eu cadw er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith. Mae'n bosibl y byddai swyddog iechyd yr amgylchedd eich awdurdod lleol am edrych ar y rhain pe bai'n ymweld â chi.

I gael rhagor o gopiau o'r daflen weithredu neu'r daflen adolygiad tri mis, gallwch naill ai eu lawrlwytho o [wefan yr ASB](#) neu gallwch lungopio'r taflenni yn y pecyn cyn i chi eu llenwi.

## BETH SYDD ANGEN I MI EI WNEUD?

Wrth ddylunio'r pecyn hwn, aethpwyd ati i sicrhau ei fod yn cynnwys cyn lleied o waith papur â phosibl. Ar ôl i chi weithio drwy'r pecyn a dilyn y dulliau diogel, nid oes angen i chi gofnodi dim ar bapur, oni bai fod problem wedi codi neu fod rhywbeth wedi newid – neu ei bod yn bryd i chi gyflawni adolygiad tri mis.

Os oes unrhyw broblemau'n codi neu unrhyw newidiadau'n digwydd, llenwch y daflen weithredu i gofnodi manylion y problemau/newidiadau a'r hyn yr ydych yn bwriadu ei wneud, neu eisoes wedi'i wneud, i fynd i'r afael â nhw.

## SUT I GWBLHAU'R ADOLYGIAD TRI MIS

Mae'r adolygiad tri mis yn gyfle i chi edrych yn ôl ar y misoedd blaenorol a nodi unrhyw broblemau difrifol neu barhaus, neu unrhyw newidiadau i'ch ffordd o weithio. Efallai y bydd angen i chi gymryd camau i ddatrys problem, neu newid eich dulliau diogel. Nodwch y manylion ar daflen yr adolygiad tri mis.

Os ydych yn sylwi ar broblem sy'n codi dro ar ôl tro cyn ei bod hi'n bryd i chi gyflawni adolygiad tri mis, dylech gymryd camau i'w datrys ar unwaith, yn hytrach nag aros tan yr adolygiad nesaf. Dylech gadw cofnod o'r hyn a wnaethoch ar eich taflen weithredu.

Efallai y bydd yn well gan rai gwarchodwyr plant gadw mwy o gofnodion nag sy'n ofynnol yn y pecyn hwn. Does dim byd o'i le ar hynny, ond gofawch eich bod yn dal ati i ddefnyddio'r daflen weithredu a'r daflen adolygiad tri mis.

## NEWID DULL DIOGEL

Weithiau, mae'n bosibl y bydd angen i chi newid un o'ch dulliau diogel oherwydd problem neu newid o ran eich ffordd o weithio. Os oes modd i chi wneud hynny, newidiwch y copi cyfredol o'r dull diogel mewn ffordd sy'n glir i'w darllen, yna ychwanegwch ddyddiad y newid ar y gwaelod a gwnewch nodyn ar eich taflen weithredu.

Weithiau, mae'n bosibl y bydd arnoch angen copi newydd o'r dull diogel (gallwch ei lawrlwytho drwy fynd ar [wefan yr ASB](#).) Ar ôl ei lenwi, rhwch y dyddiad a'ch llofnod ar y gwaelod a'i gadw yn eich pecyn. Gallwch daflu'r hen gopi o'r dull diogel. Cofiwch nodi'r hyn a wnaethoch ar eich taflen weithredu.